**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1545
Ein cyf/Our ref MA/LN/01245/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

22 Rhagfyr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref 2025 ynglŷn â Deiseb P-06-1545 *Rhoi'r gorau i orfodi plant ysgol i ddadwisgo o flaen staff/cyfoedion mewn ystafelloedd newid 'agored'.* Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ystyried sylwadau, cwestiynau ac argymhellion pellach y deisebwyr sydd ynghlwm wrth eich llythyr. Rwy'n deall hefyd y bydd y ddeiseb yn cael ei chadw'n agored i ddisgwyl am fy ymateb.

Rwyf wedi adolygu sylwadau, cwestiynau ac argymhellion y deisebwyr ochr yn ochr â'm hymateb cyntaf cynhwysfawr. Mewn perthynas ag argymhellion (1) a (2) y deisebydd, credaf fod fy ymateb cyntaf yn amlinellu'n glir safbwynt Llywodraeth Cymru. Mewn perthynas ag argymhelliad (3) a diogelu, rwy'n ychwanegu'r canlynol at fy ymateb cyntaf. Er gwybodaeth, byddwn yn cynnal adolygiad o'n trefniadau diogelu yn ystod y misoedd nesaf, ac rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r mater hwn fel rhan o'r gwaith hwnnw. Yn ogystal, byddwn hefyd yn diweddaru ein canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel presennol, bydd hyn yn destun ymgynghoriad llawn a bydd y deisebydd yn cael cyfle i godi unrhyw bryderon fel rhan o'r broses honno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y
Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, nid oes gennyf unrhyw wybodaeth ychwanegol arall i'w darparu ar hyn o bryd.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education